

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol, Nos Fawrth yr **12fed o Fawrth 2013**.

Yn bresennol oedd y Cyngorwyr Gwyndaf Roberts (Cadair), Hefina M W Roberts, OP Huws – Llanllyfni; Elwyn Jones-Griffith, Menna Williams, Iwan Lloyd Williams – Penygroes; T Les Jones – Nantlle; Harry Wyn Owen, Dafydd Glyn Owen, D Martin Williams – Talysarn; Eurig Wyn Evans – Nebo.

Gwahoddedigion: Croesawyd Carol Williams (Dirprwy Brif Swyddog) a Hilary Scott (Aelod Bwrdd dros Ogledd Cymru) o'r Cyngor Iechyd i'r cyfarfod. Rhoddwyd crynodeb o ymateb y CIC i gynigion Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, a rhannwyd pryderon y CIC ar agweddau o wasanaethau iechyd yng nghymunedau gwledig, ac ar ddarpariaeth ysbytai. Esboniwyd mai dim ond un rhan o'r ymgynghoriad ydy'r CIC, a'i fod yn drydydd llygaid yn y broses ymgynghori, yn pontio'r bwch rhwng y bobl leol a'r gwasanaeth iechyd. Cafodd y Cyngorwyr gyfle i holi, a thrafodwyd adran pelydr-x Ysbyty Eryri, gwasanaeth Chiropodi Penygroes, cydweithio rhwng ysbytai, yr Iaith Gymraeg mewn ysbytai yn Lloegr, y syniad o gael Canolfan Feddygol ym Mhenygroes. Roedd y Cyngorwyr yn ddiolchgar iawn i'r ddwy am roi eu hamser a'u presenoldeb yn y cyfarfod.

Cynllunio

Tir Bach, Llanllyfni – Newid defnydd adeilad allanol i fod yn dy, a chodi estyniad. Cais diwygiedig. Dim Gwrthwynebiad.

Bro Llwyndu (nifer), Penygroes – addasiadau ac ailwampio 12 ty, rendro, drysau, ffenestri, toi. Cymeradwyo.

The Haven, Station Road, Talysarn – codi lolfa haul ar flaen eiddo. Cymeradwyo. Caniatawyd adeiladu garej Lakeside Cottage, Ffridd, Nantlle.

Gohebiaeth

Cyngor Gwynedd

*Cyffordd Berth – diweddariad. Gofynwyd i'r Clerc gysylltu efo'r swyddog perthnasol yn y Cyngor, i leisio pryder fod gweithredu newidiadau i wella gwelededd wedi cymryd cyn hired. Barn y Gyngor yw fod y gyffordd yn un beryglus, ac fe all fod damwain wedi digwydd yn yr amser sydd wedi pasio.

*Trem yr Wyddfa – ymateb. Hysbyswyd y Cyngor nad oes arian ar hyn o bryd i wneud gwaith ail-wynebu yn Trem yr Wyddfa, ond bydd diffygion yn cael eu patchio.

*Nid oedd y Cyngor yn hapus efo ymateb Cyngor Gwynedd i'n cais i wneud Ffordd Llwyndu, Penygroes yn unffordd. Yddwn yn gofyn pa system fydd mewn lle i fonitro yn dilyn gosod llinellau melyn, a gofyn iddynt yrru holiadur i gael holi'r farn bresennol.

Dysgwr y Dyffryn. Trefnwyd cyfarfod cychwynnol ar gyfer y 26ain o Fawrth, Neuadd Llanllyfni.

Penderfynodd y Cyngor y byddai yn noddi'r gystadleuaeth eleni.

Materion Pentrefi Nebo – gwteri wedi blocio efo gwair (cyffredinol drwy'r pentref). Byddwn yn cysylltu efo Cyngor Gwynedd.

Penygroes Manols ar Ffordd y Sir wedi suddo – o flaen y tai cyn troead Ffordd y Brenin; Ffordd Llwyndu – graean yng nghanol y ffordd ddim yn cael ei lanhau gyda'r 'sweeper' bach; Ysbwriel yn cael ei daflu yn Hen Lon rhwng Penygroes a Talysarn; Ysbwriel angen ei lanhau rhwng Inigo Jones a top Penygroes; Baw ci yn ofnadwy ar y trac dros y ffordd i Garej Povey; Arwydd llwybr dros y ffordd i Povey wedi troi. Byddwn yn cysylltu gyda Cyngor Gwynedd i ofyn iddynt roi sylw i'r materion yma i gyd.

Talysarn Derbyniwyd cwynion am faw ci ar Ffordd yr Orsaf.

Llanllyfni Baw ci yn y pentref; Dwr yn cronni yn Efail y Berth (cyffordd Nasareth). Eto, byddwn yn cysylltu efo Cyngor Gwynedd.

Cyfarfod Blynyddol

DEDDF CYRFF CYHOEDDUS (EU DERBYN I GYFARFODYDD) ADRAN 1(4)A O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972, ATODLEN 12, PARAGRAFF 26(2)(a)

Yn unol a gofynion y darpariaethau statudol uchod, RHODDIR HYSBYSIAD FELLY y cynhelir CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI yn Neuadd Goffa Penygroes, ar ddydd Mawrth, 14eg o Fai 2013 am 7.00 y.h. Mae gan aelodau o'r cyhoedd haw l i fynychu'r cyfarfod oni bai eu bod wedi eu heithrio'n gywir gan benderfyniad.

Alwen Johnson
Clerc y Cyngor.